

**Ar Wyneb Daear
CA3**

Taflen Waith y Disgybl

Dilyn y Meteoryn sy!n Cwmpo

**national
museum
wales
cymru**



Dilyn y Meteoryn sy'n Cwmpo


Deunyddiau

Riwl Onglydd Pensiliau lliw

Llwybr a Chyflymder Meteoryn

Gan ddefnyddio'r map isod, trionglwch lwybr a ffrwydrad meteoryn a cheisiwch ddarganfod yr ardal orau lle y dylech chi chwilio am feteorynnau.

Mae'r map hwn yn dangos lleoliad dau berson ar yr union adeg y gwelsant y meteoryn. Roedd yr arsyllwraig yng nghanol Llanbadrig Plain yn edrych 80° i'r Dwyrain o'r Gogledd pan welodd hi'r meteoryn yn ffrwydro.



- O Llanbadrig Plain, mesurwch ongl 80° i'r Dwyrain o'r llinell gyfeirio G-D doredig, marciwch yr ongl, a chan ddefnyddio pensil lliw tynnwch linell hir o Llanbadrig Plain drwy'r marc a wnaed gennych.

Roedd yr arsylydd yn Caersws Marsh yn edrych i gyfeiriad pwynt 40° i'r Dwyrain o'r Gogledd pan welodd ef y meteoryn yn ffrwydro.

- O Caersws Marsh mesurwch ongl 40° i'r Dwyrain o'r llinell gyfeirio G-D doredig a marciwch yr ongl. Gan ddefnyddio'r un pensil lliw tynnwch linell hir o Caersws Marsh drwy'r marc a wnaed gennych.

Cwestiynau

1. Ble mae'r ddwy linell yn croesi?

2. Ble ffrwydrodd y meteoryn?

Roedd y ddau arsylydd hefyd wedi gweld gwreichionen yn tasgu o'r meteoryn ychydig cyn iddo ffrwydro (cymerwch yn ganiataol fod y meteoryn yn dilyn llwybr llorweddol). Roedd yr arsyllwraig yng nghanol Llanbadrig Plain yn edrych i gyfeiriad pwynt 110° i'r Dwyrain o'r Gogledd pan welodd hi'r wreichionen yn tasgu.

- *Gan ddefnyddio'r un dechneg a ddefnyddiwyd yng ngham 1 a phensil o liw gwahanol, tynnwch linell hir o Llanbadrig Plain tua'r cyfeiriad hwnnw.*

Roedd yr arsylydd yn Caersws Marsh yn edrych i gyfeiriad pwynt 60° i'r Dwyrain o'r Gogledd pan welodd ef y wreichionen yn tasgu.

- *Tynnwch linell hir o Caersws Marsh tua'r cyfeiriad hwnnw.*

3. Ble roedd y meteoryn pan dasgodd y wreichionen?

4. Gan ddefnyddio lleoliad y wreichionen a'r ffrwydrad, i ba gyfeiriad yr oedd y meteoryn yn teithio?

5. Pa mor bell oedd hi o'r man lle y tasgodd gwreichionen o'r meteoryn i'r man lle y ffrwydrodd y meteoryn?

6. Ble y byddech chi'n edrych gyntaf am feteorynnau a fyddai wedi cwmpo, o bosibl, yn dilyn y ffrwydrad?

7. Os oedd y ddau arsylydd wedi cyfrif 2 eiliad rhwng y wreichionen a'r ffrwydrad, pa mor gyflym oedd y meteoryn yn teithio (km/awr)?
